**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 29 Medi 2021 am 5.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd H Boggis |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd L De Vet |
| Y Cynghorydd S Rees | Y Cynghorydd J Elliott |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd S.Evans |
| Y Cynghorydd S. Rees-Owen | Y Cynghorydd M Forey |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd M Griffiths |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd M Weaver |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd L Walker |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd P Howe |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd R Yeo |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd G Thomas |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd M Adams |
| Y Cynghorydd J Rosser | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd E Stephens |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd L Jones | Y Cynghorydd L Hooper |
| Y Cynghorydd J Harries | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd H Fychan | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd A Davies-Jones | Y Cynghorydd J Davies |
| Y Cynghorydd A Cox | Y Cynghorydd A Chapman |
| Y Cynghorydd E Griffiths | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd J Barton |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen

## 50 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, A Calvert, J Cullwick, A S Fox, E George, J James, K Jones, M Fidler Jones, W Owen, S Pickering, M Powell, S M Powell, M Tegg a R Turner.

## 51 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Eitem 12A - Rhybudd o Gynnig (**codiadau cyflog yn y sector cyhoeddus)

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Trask **- "**Mae fy ngwraig wedi'i chyflogi Cymru a chymrodd hi ran yn y bleidlais ar y cynnig"**.**
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes - "Mae fy mam yn cael ei ch yr Awdurdod Lleol"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo - "Mae fy ngwraig yn gweithio i'r
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Weaver - "Rwy'n derbyn Pensiwn y
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis - "Mae gen i aelod agos o'r teu yn gweithio i'r GIG."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans – "Rwy'n gweithio i'r GIG".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Harries - "Mae gen i sawl aelod o'r teu yn gweithio i'r GIG ac mae fy nhad yn gweithio i'r Awdurdod Lleol"**.**
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan - "Rwy'n gyflogedig gan y GI
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby - "Mae gen i ddau fab sydd Yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol a nai sy'n gweithio i'r GIG".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Morgans -" Mae fy merch yn gweithic GIG".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple - "Mae fy mab yn feddyg ac yr i'r GIG "**.**
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Roberts - "Mae fy mab yn gweithio i'r Awdurdod Lleol".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol LM Adams - "Mae fy ngwraig yn derbyr Pensiwn y GIG fel cyn fydwraig"**.**

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D R Bevan - “Mae fy merch yn gweithio i'r Awdurdod Lleol".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Griffiths - “Mae fy mrawd yn gweithio fel gweithiwr achlysurol i'r Awdurdod Lleol ”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis - “Mae fy mab yn gweithio i'r Awdurdod Lleol".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Williams - “Mae gen i gontract rhan amser gyda'r GIG”.
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L De Vet - “Mae fy nau fab yn gweithio i'r Awdurdod Lleol".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S A Bradwick - “Mae gen i berthynas agos sy'n gweithio i'r GIG ”.
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Stacey - “Mae gen i fab, merch a ŵyr sy'n gweithio i'r Awdurdod Lleol”.
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Forey - “Mae fy merch yn athrawes ac yn cael ei chyflogi gan yr Awdurdod Lleol ”.
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman - “Mae fy mab yn gweithio i'r Awdurdod Lleol".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Williams - “Mae fy mab yn gweithio i'r
- Awdurdod Lleol".

Cyhoeddodd y Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman y budd personol canlynol mewn perthynas â'r eitemau canlynol ar yr agenda:

Eitem 6 - Datganiad o Gyfrifon Rhondda Cynon Taf ac Adroddiad Archwilio Allanol

Eitem 7 - Adroddiad Cynnydd a Throsolwg - Lliniaru Llifogydd

Eitem 8 - Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig – y Newyddion Diweddaraf

Eitem 9 - Blaenoriaethau Buddsoddi'r Cyngor

"Yr hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2020-2021 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid".

**52 Cyhoeddiadau**

- Cyflwynodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis ddeiseb i'r Cadeirydd ar ran aelod ward y Cynghorydd E George a preswylwyr mewn perthynas â 'Mesurau Lleihau Cyflymder ar gyfer Heol

Abercynon'.

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Elliott gyflawniad Tom Matthews o Aberdâr wedi iddo ennill medal Efydd yn y gystadleuaeth tenis bwrdd yn ei ddigwyddiad Paralympaidd cyntaf yn ninas Tokyo. Cafodd ei groesawu gartref gan bawb yn yr ardal.

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman fod Prifysgol Aberystwyth wedi cyhoeddi penodiad 10 cymrawd er anrhydedd newydd yn ddiweddar, gan gynnwys Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr Cynnwys a Gwasanaethau i BBC Cymru, am ei chyfraniad rhagorol i faes Darlledu. Roedd Rhuanedd yn arfer byw yng Nghefnpennar a Chwmaman, ac fe'i haddysgwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mynychodd Brifysgol Aberystwyth, mae'n gyn-lywydd ar UCM Cymru ac mae bellach yn byw ym Mhontypridd. Roedd y Cynghorydd Jarman hefyd am anfon ei chydymdeimlad at ffrindiau a theulu cydweithiwr agos Rhuanedd, Magi Dodd, sef un o gyflwynwyr Radio Cymru, a fu farw yn 44 oed.

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Griffiths hefyd yn dymuno talu teyrnged i Magi Dodd. Ganwyd Magi ym Mhontypridd a mynychodd Ysgol Gyfun Rhydfelen. Roedd hi'n gyflwynydd a chynhyrchydd a oedd yn angerddol am gerddoriaeth Gymraeg, ac roedd hi'n hyrwyddo llawer o fandiau fel 'Breichiau Hir' - dywedon nhw ei bod hi wedi gwneud iddyn nhw deimlo fel "sêr roc go iawn". Roedd hi'n unigryw a llwyddodd i gyrraedd cynulleidfa ifanc trwy Radio Cymru. Cynhyrchodd lawer o raglenni radio gan gynnwys rhaglen y Cynghorydd S Rees-Owen. Roedd y Cynghorydd E Griffiths yn dymuno estyn ei chydymdeimlad i deulu ei Magi.

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Owen-Jones fod Hayley Jacobs, Arweinydd Gyrfa yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog sy'n byw yn Ward Dwyrain Tonyrefail, wedi ennill gwobr Arweinydd y Flwyddyn y Sefydliad Datblygu Gyrfaoedd ar gyfer 2021. Mae hi wedi cyrraedd rhestr fer y wobr ddwywaith. Cysylltwyd â Hayley hefyd i ysgrifennu ar gyfer cyhoeddiad cenedlaethol sy'n tarfod Arweinyddiaeth Gyrfa. Gofynnodd y Cynghorydd D Owen-Jones am pe byddai modd i Hayley dderbyn llythyr gan yr Aelod Cabinet perthnasol neu'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Ymyrraeth yn cydnabod ei chyflawniad.

## 53 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd ar 30 Mehefin 2021 (5pm) a 14 Gorffennaf 2021 yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod yn amodol ar ddileu'r dyblygu o dan 'Cyhoeddiadau' (30 Mehefin 2021) a nodi bod y Grŵp Ceidwadol wedi gadael y cyfarfod pan drafodwyd yr Hysbysiad o Gynnig (11B) (BEIS) (30 Mehefin 2021).

## 54 Datganiadau

**Datganiad gan Arweinydd y Cyngor:**

Estynnodd Arweinydd y Cyngor ei ddiolch i holl staff gofal cymdeithasol y Cyngor ac i'r staff yn y sector Annibynnol am eu holl waith drwy gydol y pandemig. Ychwanegodd fod staff wedi blino'n lân ar ôl gweithio sifftiau ychwanegol i gyflenwi dros y rhai sy'n gorfod hunan-ynysu ac mae staff hefyd yn

delio â cholli cleifion yn ystod y pandemig.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor, bedair blynedd yn ôl, wedi cyflwyno'r cyflog byw sylfaenol i holl staff gofal cymdeithasol y Cyngor, a dwy flynedd yn ôl symudodd holl staff gofal cartref y sector annibynnol i'r un cyflog a bydd adroddiad y Cabinet a gyhoeddir yn fuan yn cyfeirio at gyflwyno'r cyflog byw i weithwyr y sector annibynnol sy'n gweithio ym maes gofal preswyl, byw â chymorth a thaliadau uniongyrchol. Mae'r pwysau ar y gwasanaeth gofal yn RhCT ar hyn o bryd yn heriol.

Fel Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae Arweinydd y Cyngor wedi cyfarfod â Gweinidogion ers hynny ynghylch y pwysau yn y sector hwn, a chynhelir cyfarfodydd pellach i drafod sefyllfa Cymru gyfan, gan fod nifer o awdurdodau lleol yn wynebu anawsterau wrth gynnal lefel y gofal. Dywedodd yr Arweinydd fod RhCT yn dal i lwyddo i gynnal lefelau gofal yn y maes gwasanaeth hwn wrth iddo weithio gyda'r sector gwirfoddol ac annibynnol. Nododd yr Arweinydd, ym marn Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, y bydd yr heriau o'n blaenau yn ddigynsail eleni.

Yn ystod y misoedd nesaf efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol gymryd camau priodol i ddiogelu'r unigolion mwyaf agored i niwed yn y sector gofal cymdeithasol ac mae'r mater hwn yn cael ei drafod ar draws yr holl awdurdodau lleol. I gloi, estynnodd yr Arweinydd unwaith eto ei ddiolch, ar ran yr holl aelodau o bob grŵp gwleidyddol, i'r staff gofal cymdeithasol hynny am weithio'n ddiflino i gadw preswylwyr ac anwyliaid mor ddiogel â phosibl.

**55 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cafodd yr Aelodau wybod bod ymddiheuriadau am absenoldeb wedi'u derbyn gan y Cynghorydd A S Fox a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, na fyddai cwestiwn 5 yn cael ei gyflwyno i'r Aelod o'r Cabinet.**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol . Treeby i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“A all yr Arweinydd wneud datganiad ar ddiogelwch cymunedol a phlismona lleol yn Rhondda Cynon Taf?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd mai Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf yw'r grŵp arwain strategol ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu gweithgareddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol. Mae aelodau'r Bwrdd Partneriaeth yn cynnwys: Cynghorau RhCT a Merthyr Tudful, Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Bwrdd Iechyd CTM, a hefyd aelodau anstatudol.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Bwrdd yn delio â nifer o faterion yn ymwneud â lleihau troseddau a gwella diogelwch cymunedol yn Cwm Taf, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol lle mae carfan Diogelwch Cymunedol y Cyngor yn gweithio'n agos gyda HDC i sicrhau bod pawb sy'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol yn destun ymateb priodol. Mae grŵp strategol yn cyfarfod yn fisol i drafod y meysydd mwyaf problemus,

gyda chynlluniau gweithredu ar waith i ymateb i faterion a nodwyd.

Mae maesydd arall yn cynnwys Rheoli Troseddwyr sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf, gwaith camddefnyddio sylweddau gyda Bwrdd Cynllunio Ardal CTM drwy ddarparu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cefnogi Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau LlC, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Carfan Cymunedau Diogel yn ail-lansio ymgyrch “Gofynnwch am Angela”, a bydd hyn yn cael ei gyflwyno ar draws adeiladau trwyddedig yn y sir ar gyfer pobl sy'n teimlo'n fregus neu'n anniogel.

Yn ogystal, esboniodd yr Arweinydd fod y Bwrdd Partneriaeth Diogelwch hefyd yn cynnwys meysydd fel cydlyniant Cymunedol a Gwrthderfysgaeth sy'n dangos bod llu o wasanaethau ar waith.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby:**

“Yn dilyn buddsoddiad dros y blynyddoedd diwethaf mewn camerâu teledu cylch cyfyng yng nghanol trefi, pa effaith y mae’r buddsoddiad wedi’i chael ac a yw wedi bod yn werth chweil? ”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod symud i'r camerâu digidol wedi bod yn werth chweil ac ychwanegodd ei fod wedi mynychu'r ganolfan teledu cylch cyfyng yn ddiweddar i weld y buddsoddiad dros ei hun. Dywedodd fod ansawdd y lluniau wedi gwella'n sylweddol ac mae'n cynorthwyo'r Heddlu i adnabod pobl yn hawdd ac yn gyflym, ac yn eu galluogi i weithredu
gan gyfuno gwybodaeth leol â lluniau teledu cylch cyfyng. Mae adborth yr Heddlu wedi bod
yn amhrisiadwy.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Williams i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“A wnaiff yr Arweinydd amlinellu cynlluniau’r Cyngor hwn i ddatblygu Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig ar draws y Fwrdeistref Sirol?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd, er bod awdurdodau lleol yn gweithio ar Gynllun Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru, a luniwyd gan awdurdodau lleol i drafod ôl troed rhanbarthol, mai'r Metro fydd yr effaith fwyaf. Dywedodd fod y cerbydau newydd wrthi'n cael eu creu, rhai yng Nghasnewydd ac eraill yn Ewrop. Bydd y gwelliannau i'r gwasanaeth yn aml yn cynyddu'r gwasanaeth i 4 trên yr awr i bob cyfeiriad ac yn cael effaith enfawr ar amlder trenau o ardaloedd Merthyr, Aberdâr a Treherbert thrwy Bontypridd.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn buddsoddi mewn hybiau trafnidiaeth, fel y cyfleuster newydd yn ardal Porth, gorsafoedd bysiau, ac yn datblygu cynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth o lwybrau cerdded a beicio i orsafoedd trên er mwyn annog preswylwyr i adael eu cerbydau a chadw draw o ffyrdd prysur fel yr A470. Gyda'r cynlluniau hyn ar waith a chyllid gan Lywodraeth Cymru, nododd

yr Arweinydd fod y newid sylweddol mewn cysylltiadau trafnidiaeth yn cyd-fynd yn well ag anghenion preswylwyr o fewn y 3-4 blynedd nesaf.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Williams:**

“A allwch chi ddweud wrthym am y buddsoddiad mewn cynnal a gwella’r cysylltiadau trafnidiaeth lleol ledled y Sir dros y blynyddoedd diwethaf?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod cymysgedd o arian LlC a'r Cyngor wedi galluogi buddsoddiadau o ran troedffyrdd, ail-wynebu ffyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth gwell, ac mae cyllid teithio llesol craidd gan LlC wedi galluogi cynnal a chadw a gwella nifer o lwybrau fel llwybrau Cynon a Taf. Defnyddir nifer o'r llwybrau teithio llesol gan lawer o bobl ac maent yn dioddef traul ar ôl blynyddoedd lawer felly mae cyllid refeniw LlC wedi helpu gyda gwelliannau megis rhwystrau a chanllawiau. Mae yna lawer o waith yn cael ei wneud. Yn ogystal, cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at uwchraddio'r seilwaith presennol, fel newid croesfan sebra i groesfan pâl, sy'n fwy diogel i'r cerddwr ac yn well ar gyfer llif traffig.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“A all Arweinydd y Cyngor ddarparu diweddariad ar gynigion y Gronfa Lefelu a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU gan y Cyngor hwn?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd na chafwyd ymateb i gais y Cyngor ers iddo gael ei gyflwyno, er gwaethaf iddo ysgrifennu at y Gweinidog R Jenrick ar y pryd fel Arweinydd RhCT a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Mae llythyr arall wedi'i anfon ers hynny ar ran y 22 Awdurdod Lleol at y Gweinidog newydd M Gove yn gofyn am ddiweddariad.

Eglurodd yr Arweinydd fod pob cais yn cael ei gyflwyno fesul ardal etholaethol a gellir cyflwyno prosiect trafnidiaeth ychwanegol os mai'r awdurdod yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer trafnidiaeth. Rhoddodd ddiweddariad ar bob cais unigol fel a ganlyn:

Etholaeth Pontypridd -Cais wedi'i gyflwyno i ailddatblygu Canolfan Gelf y Miwni yn llawn

Etholaeth Rhondda -Cyfraniad i Hwb Trafnidiaeth Porth ar gyfer y gwaith adfywio.

Cwm Cynon -Datblygu hen safle Ffatri Mayhew Chicken i greu safle defnydd cymysg ar gyfer diwydiant a thrafnidiaeth.

Prosiect Trafnidiaeth Ychwanegol -Mae Deuoli'r A4119 yn rhan annatod o rwydwaith priffyrdd strategol rhanbarthol ehangach, ac mae'n gysylltiedig â chyfleoedd economaidd ardaloedd gorllewinol RhCT a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones:**

“Roeddwn i eisiau rhagor o wybodaeth am ddatblygiad y Ffatri yn Nhrecynon”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd nad oes diweddariadau pellach ar y ceisiadau ond erbyn yr 17 Hydref 2021 mae'n bosibl y bydd modd cyhoeddi'r cynigion ar yr un pryd â'r adolygiad gwariant cynhwysfawr.

Ymhelaethodd yr Arweinydd ar ddatblygiad y Ffatri, a'r bwriad o greu maes Parcio a Rennir, a allai ddatblygu'n faes Parcio a Theithio pe bai estyniad rheilffordd Hirwaun yn cael ei gymeradwyo. Bydd y safle Parcio a Theithio yn cynnwys cyfleusterau gwefru trydan a bydd rhan o'r datblygiad yn cynnwys nifer o unedau diwydiannol ysgafn, tebyg i'r rhai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd yn Nhresalem.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G R Davies i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

A wnewch chi ddatganiad ar isadeiledd trafnidiaeth ym mhen uchaf y Rhondda Fawr?

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd y byddai ei ymateb yn debyg i'r ymateb a roddwyd i'r Cynghorydd R Williams ar y gwelliannau i drydaneiddio rhwydwaith Core Valley Lines i'r gogledd o Gaerdydd i Dreherbert, fel rhan o gynllun Metro De Ddwyrain Cymru. Mae hyn eto'n cynnwys cerbydau newydd, gwasanaethau amlach a gwelliannau i orsafoedd ynghyd â'r gwaith dichonoldeb o ran ymestyn y rheilffordd o Dreherbert i Dynewdd a hyd at Flaenrhondda.

Dywedodd yr Arweinydd fod yna gynigion i ymestyn a chynyddu capasiti'r gorsafoedd Parcio a Theithio a naill ai gwella'r cyfleusterau parcio a theithio presennol neu adeiladu cyfleusterau newydd. Mae cynlluniau teithio yn cael eu datblygu i ddarparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr i sicrhau bod ardaloedd wedi'u goleuo'n dda ac yn ddiogel i bawb a gwella cyfleoedd teithio llesol. Bydd tocynnau integredig yn fudd enfawr, er enghraifft yn Hwb Trafnidiaeth Porth. I gloi, dywedodd yr Arweinydd fod angen buddsoddiad sylweddol a pharhaus ym maes teithio.

**Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd G.R.Davies**

“Rwyf wedi gofyn yn aml sut mae’r prosiectau trafnidiaeth yn y Rhondda Fawr yn datblygu, y prosiect lonydd beicio, y prosiect i ymestyn y rheilffordd i Dreherbert a Tynewydd a'r gwaith i oresgyn y tagfeydd o amgylch Sgwâr Stagg. A allwch ymrwymo, yn ystod datblygiad y CDLl, y byddwch o leiaf yn cefnogi llawer o wahanol brosiectau fel na chollir y cyfle i'w datblygu yn y dyfodol?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Ymatebodd yr Arweinydd y byddant, mewn egwyddor, yn cael eu cefnogi, er y

bydd y gwaith dichonoldeb sy'n mynd rhagddo ar nifer o'r prosiectau hyn yn cael ei fwydo i'r adolygiad parhaus o'r CDLl. Fodd bynnag, os oes materion sylfaenol lle na ellir datblygu prosiect, yna ni fyddai'n gwneud synnwyr i amddiffyn llwybr neu leoliad coridor o fewn y CDLl gan fod yn rhaid iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

“A all Aelod y Cabinet ddarparu diweddariad ar fuddsoddiad y Cyngor mewn parciau a chadarnhau a yw hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

Ymatebodd yr Aelod o'r Cabinet fod yr holl barciau a mannau chwarae yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol gan eu bod yn darparu ystod o fuddion iechyd a lles i breswylwyr ac ymwelwyr, ac mae'r pandemig a'r cyfyngiadau ar fywydau preswylwyr mewn amrywiol ffyrdd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ardaloedd o'r fath.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod yr ymrwymiad parhaus yn yr ardal hon wedi'i amlygu gan benderfyniad y Cabinet i gymeradwyo cynlluniau ar gyfer tir ym Mharc Cefn Gwlad Cwm Clydach, i'w ddynodi'n Barc Gwledig swyddogol. Yn hanfodol, gall y Cyngor weithio gyda'r Bwrdd Strategol a sefydlwyd yn ddiweddar i wneud cais am gyllid allanol i wella a datblygu'r safle, sydd eisoes yn boblogaidd, ymhellach. Cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Parc Beicio Teulu Disgyrchiant newydd wedi agor ym Mharc Gwledig Cwm Dâr yn ddiweddar, tra bod ardal chwarae'r plant wedi'i gwella'n sylweddol yn ddiweddar fel rhan o'r pecyn buddsoddi cyffredinol o £1.5m (cyfuniad o £ 1 miliwn o Cyllid Canolfannau Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd a £500,000 o fuddsoddiad Cyfalaf y Cyngor ei hun).

Yn ddiweddar, cwblhawyd uwchraddiadau pellach ar oleuadau stryd ac adnewyddiad llawn o'r prif droedffyrdd ym Mharc Coffa Ynysangharad oherwydd buddsoddiad cyfun o raglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd a chyllid y Cyngor ei hun. Bydd cam pellach o'r gwaith yn cychwyn yn fuan gan ddefnyddio Cyllid Loteri Treftadaeth sylweddol, a bydd hyn yn dod â rhai o'r nodweddion gwreiddiol yn ôl i'r Parc Rhestredig Gradd II - mae'r gwaith hwn yn cynnwys adfer y bandstand ac adnewyddu'r ardd suddedig

I gloi, nododd yr Aelod o'r Cabinet fod y parciau gwledig hefyd yn agwedd allweddol ar ein strategaeth dwristiaeth, a gymeradwyodd y Cabinet yn ddiweddar.  Y nod yw rhoi hwb i'n heconomi leol trwy gynyddu nifer yr ymwelwyr â RhCT a'r rhanbarth ehangach - bydd hyn wedyn yn helpu i ddenu nifer cynyddol o ymwelwyr i ganol ein trefi.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd H. Boggis:**

"A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y Parc Beicio Disgyrchiant?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod Parc Beicio Disgyrchiant yn cynnwys gwahanol lwybrau a'r trac codi, sy'n boblogaidd iawn, gyda'r holl sesiynau hyfforddi wedi'u bwcio'n llawn yn ystod mis Awst. Mae Pedal-A-Bike-Away yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor i ddarparu sesiynau wythnosol sy'n targedu menywod a merched ifainc, plant 2-5 oed ac oedolion dros 50 oed. Gall digwyddiadau fel y sesiwn Merched yn unig hefyd helpu gydag iechyd a lles preswylwyr trwy roi cyfle iddynt gymdeithasu â choffi wedyn.

Yn ogystal â'r cyfleuster newydd, mae'r Cyngor hefyd wedi canolbwyntio ar wella profiad yr ymwelydd trwy fuddsoddi mewn adnewyddu ac ymestyn y bloc cawodydd, gan gynnwys newid lleoedd teuluol a newid, mae llety'r gwesty a'r maes chwarae hefyd wedi'u huwchraddio.

## 56 Rhaglen Waith y Cyngor 2021/22

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiweddariad ynghylch Rhaglen Waith y Cyngor, sydd wedi'i mabwysiadu a'i chyhoeddwyi, gan gynghori y byddai cyfarfod o Weithgor Rhyddid y Fwrdeistref, dan gadeiryddiaeth y Maer, yn cael ei gynnal i ystyried yr enwebiadau ac yn cael ei adrodd i'r Cyngor yn hwyrach na'r dyddiad a gynlluniwyd. Ar adeg briodol, bydd adroddiad yn amlinellu'r argymhellion a'r adborth ynghylch y Rhybuddion Cynigion a gyfeiriwyd at y Pwyllgorau Craffu yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ar y cyd a bydd diweddariad pellach mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd a threfniadau gweithio hybrid hefyd yn cael ei roi ar ddiwedd ail gam y broses gyflwyno.

Nodwyd y byddai'r ddau ddiweddariad pellach yn cael eu hadrodd i'r Cyngor ym mis Hydref sef yr Adolygiad o Reoliad, Ymwybyddiaeth a Gorfodi Deddfwriaeth Llifogydd a Dŵr a gefnogwyd yn ddiweddar gan y Cabinet a'r CDLl. I gloi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cyflwyno diweddariad i'r Cyngor ym mis Tachwedd.

## 57 Datganiad o Gyfrifon Rhondda Cynon Taf ac Adroddiad Archwilio Allanol

Cyflwynodd Mr M Jones, Archwilio Cymru, yr Adroddiad o ddatganiadau ariannol 2020-21 ar gyfer CBS Rhondda Cynon Taf, gan nodi bod yr adroddiad archwilio llawn ynghlwm yn Atodiad 2 ac mae'r holl gamddatganiadau a nodwyd wedi'u diwygio ac maent wedi'u nodi yn Atodiad 3.

Diolchodd yr Arweinydd i Archwilio Cymru am ei gymeradwyaeth ddiamod o'r datganiadau ariannol ar gyfer 2020/21 a gwnaeth sylwadau ar y gwaith da a lefel yr ymddiriedaeth rhwng Archwilio Cymru a Swyddogion RhCT. Cydnabu hefyd faint o waith a wnaed gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol a'i staff o ran cyhoeddi nifer o grantiau cymorth a thaliadau prydau ysgol am ddim yn ystod y flwyddyn sydd wedi'u cynnwys er mwyn bodloni'r archwilwyr.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

wedi ystyried y cyfrifon drafft ar 12 Gorffennaf 2021. Doedd y Pwyllgor ddim wedi nodi unrhyw broblemau, er nad oedd y cofnodion yn cyfeirio at hynny

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Atodiad 1), a'r Llythyr Cynrychiolaeth cysylltiedig (Atodiad 2).

2. Cymeradwyo a nodi safle alldro terfynol y Cyngor, sydd wedi'i archwilio, ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a lefel y Balansau Cyllid Cyffredinol (paragraff 8.4 o'r adroddiad); ac

3. Nodi'r ystyriaethau a sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Gorffennaf 2021 a 13 Medi 2021 fel sy'n ofynnol gan y Mesur Llywodraeth Leol (paragraffau 11.1 ac 11.2).

**58 Adroddiad Cynnydd a Throsolwg - Lliniaru Llifogydd**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran, Materion Datblygu Ffyniant a Gwasanaethau Rheng Flaen a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd ar fesurau Lliniaru Llifogydd a gwaith cysylltiedig ar seilwaith ers Storm Dennis.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai cyflwyniad Power Point yn cyd-fynd â'r adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o rai o'r nifer o welliannau a wnaed ers Storm Dennis megis dros £3.5M wedi'i wario ar ddarparu gwaith cynnal a chadw i domenni glo ar draws RhCT ac ar y gwaith brys yn Nhylorstown, dros £4M ar atgyweirio difrod i strwythurau a rhwydweithiau draenio, a bron i £2.3M ar Gynlluniau Lliniaru Llifogydd newydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod adroddiad i'r Cabinet ar 21 Medi 2021 wedi ystyried cynyddu adnoddau tuag at godi ymwybyddiaeth a gwaith gorfodi o ran llifogydd ac wedi argymell y dylai'r Cyngor fabwysiadu rheoleiddio, codi ymwybyddiaeth a gorfodi deddfwriaeth llifogydd a dŵr yn dilyn Storm Dennis. Ychwanegodd, ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, bod sesiwn friffio Aelodau mewn perthynas â Rheoli Perygl Llifogydd ac Is-ddeddfau wedi'i chynnal a bod nifer wedi'i fynychu. Dywedodd y bydd adroddiad mewn perthynas â'r is-ddeddfau yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref, fel y cyfeiriwyd ato gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Rheng Flaen ei gyflwyniad Power Point a ddangosodd y gwahanol gynlluniau gyda'r defnydd o ffotograffau gan gynnwys yr ystafell reoli argyfwng a sefydlwyd yn Nhŷ Elai pe bai unrhyw ddigwyddiad brys.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gwnaethant hynny mewn perthynas â'r canlynol:

- A ddylai'r Cyngor fod yn gyfrifol am lle methodd ei seilwaith oherwydd nad oedd wedi'i gynnal yn y cyfnod cyn y llifogydd? A yw'r cofnodion cyn

y llifogydd yn pennu pa mor fregus yw'r isadeileddau hynny?

- A gyflwynir unrhyw un o'r hawliadau yswiriant ar sail esgeulustod ar ran y Cyngor?
- Fel y nodwyd yn yr adroddiad i'r Cyngor, beth yw'r adroddiad terfynol sy'n ymwneud â chylfat Teras Campbell ac i bwy yr adroddwyd amdano?
- A oes trydydd cam i'w weithredu yn Nheras Bronallt yn Abercwmboi?
- A oes diweddariad ar y gwaith yn y gwaith uwch yng ngorsaf bwmpio Glenboi?
- Beth yw'r diweddaraf gan CNC ynglŷn â'r adolygiad o lifogydd afonydd yn y ward?
- Hunangymorth a mesurau lleol - A oes gwybodaeth bellach ar gael ynghylch pa eiddo sydd wedi cael gatiau llifogydd a phwy sydd ddim wedi'u cael gan ei bod yn ymddangos bod anghysondeb?
- Cynlluniau  Ymateb y Gymuned Mewn Argyfwng - beth yw'r amserlenni ar gyfer cadarnhau'r cynllun drafft a'r rhestr o adeiladau posibl?
- A oes amserlen yn cadarnhau'r Adroddiadau Adran 19 sy'n weddill?
- Dywed yr adroddiad fod archwiliadau pellach yn cael eu comisiynu ar gyfer y wal ar hyd Heol Berw, a allwch roi amserlenni inni ar gyfer yr archwiliadau oherwydd er bod y wal wedi'i hatgyweirio, mae pryderon o hyd nad yw'r wal yn gweithio fel amddiffynfa?

Darparodd Arweinydd y Cyngor a Chyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen yr ymatebion a ganlyn:

Mae'r cylfat yn Nheras Bronllt yn Abercwmboi yn waith cam dau gyda cham tri yn y cam dichonoldeb a dylunio. Nid oes amserlen ar waith hyd yma ond mae'n dibynnu ar y tir a'i addasrwydd.

Dywedwyd wrth yr aelodau, o ran y llifddorau, bod y rhestr o eiddo a dderbyniodd arian grant LlC/ALl wedi'i chroesgyfeirio â chofnodion LlC a CNC i greu un rhestr gynhwysfawr y cysylltwyd â'r holl eiddo yr effeithiwyd arnynt. Yn dilyn yr ohebiaeth ymatebodd oddeutu 50% o'r eiddo. Dosbarthwyd trydydd llythyr dilynol yn ddiweddar a fydd yn cael ei ddilyn gan ymweliadau â'r eiddo hynny. Yn ardal Pentre, er gwaethaf ymweliadau â chartrefi, nid oedd rhai eiddo wedi ymuno â'r cynllun llifddorau o gwbl.

Cadarnhawyd bod y Cynllun Mewn Argyfwng wedi'i ddiweddaru ac y bydd yn cael ei gylchredeg i holl aelodau'r Cyngor.

Mae nifer o adroddiadau Adran 19 yn y camau olaf o'u cwblhau cyn eu cyhoeddi dros yr wythnosau nesaf. Lle nad yr Awdurdod Lleol yw'r awdurdod rheoli risg llifogydd, mae angen cynnal proses ymgynghori â phartneriaid ac mae angen llawer o waith er mwyn i'r adroddiadau Adran 19 gael eu hysgrifennu a'u cyhoeddi.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen, ddiweddariadau ar orsaf bwmpio Glenboi ac ar Deras Campbell yn ogystal ag adolygiad CNC o lifogydd afonydd yn Ffynnon Taf, a dywedodd fod yr Awdurdod Lleol, trwy'r Bwrdd Llifogydd, yn cwrdd yn rheolaidd â CNC a Dŵr Cymru. Mae CNC wedi nodi ei fod wedi cwblhau ei arolygon ar y Taf isaf tuag at Bontypridd, ac wedi datblygu Model Llifogydd Afonol. Bydd CNC nawr yn ystyried goblygiadau'r wybodaeth y maen wedi'i chasglu trwy arolygon i ran isaf y Taf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod pob Cyngor yn wynebu materion

tebyg o ran materion atebolrwydd a buddsoddi ond dywedodd fod RhCT wedi buddsoddi cryn dipyn trwy'r amrywiol fentrau fel y nodir yn yr adroddiad. O ran yr isadeiledd, mae'r draeniad priffyrdd wedi'i gynllunio ar gyfer stormydd sy'n digwydd unwaith mewn 30 mlynedd ac roedd yr hyn a brofwyd yn fwy na hynny

Gofynnwyd cwestiynau pellach:

- Gwnaed gwaith sylweddol ar y cylfatiau ym Mharc Cae Felin yn Hirwaun er nad oes sôn am hyn na Hirwaun yn yr atodiadau, a yw hyn yn golygu nad oedd angen atgyweiriadau? A oes gennym ddyddiad ar gyfer adroddiad Adran 19 ar gyfer Hirwaun?
- Oes modd cael diweddariad ar gyfer gwaith yn Heath Terrace yn Ynyshir?
- Roedd adroddiad Pentre Adran 19 yr Awdurdod Lleol yn feirniadol o CNC a chyhoeddwyd argymhellion wedi hynny ond mae CNC wedi gwrthod cymryd cyfrifoldeb am ei ran. Mae preswylwyr yn haeddu cael eu digolledu, pwy sy'n gyfrifol a phwy fydd yn digolledu'r preswylwyr ym Mhentre?
- Effeithiwyd yn wael ar ardaloedd gogleddol y Rhondda Fawr, a allwch ddweud wrthym pa fesurau y mae'r Cyngor yn eu cyflwyno i liniaru effaith digwyddiadau tywydd yn y dyfodol, yn enwedig yr ardal o ffordd y tu allan i hen safle ysbyty Llwynypia?
- Ar hyn o bryd nid yw cynllun Trehafod yn cael ei ddyrannu i ffrwd ariannu benodol, o ystyried mai llifogydd afradlon a achosodd i'r 43 eiddo yn Nhrehafod orlifo, a allwch chi sôn am unrhyw welliannau eraill yn yr ardal a allai leihau llifogydd yn y dyfodol wrth i ni aros am y trafodaethau i'r orsaf bwmpio gael eu datrys?

Sicrhawyd yr aelodau bod meysydd gwaith eraill ac ymyriadau eraill yn cael eu cynnal ledled y fwrdeistref sirol er nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cyfredol i'r Cyngor.

Fel mwyafrif y llifogydd, roedd y rhai ym Mharc Cae Felin yn deillio o'r afon, mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd gyda CNC fel yr Awdurdod Rheoli Risg (RMA) sydd â phwerau i reoli risg llifogydd o brif afonydd, felly adroddiad terfynol ardal Hirwaun fydd adroddiad ymchwilio i lifogydd gyda CNC, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, yntau’r Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth i'r cwestiynau yn unigol

O ran yr adroddiad Adran 19 ynghylch Pentre, bu sesiwn gadarn gan gynnwys Mr Gareth O'Shea o CNC yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ddiweddar. O ran cyfrifoldebau, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Rheng Flaen fod y Cyngor, ac yntau'n Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn gyfrifol am lunio adroddiad S19 wedi argymell bod CNC yn adolygu ei arferion coedwig gan mai prif ffynhonnell llifogydd yn y llifogydd cychwynnol oherwydd rhwystr gan ddeunyddiau coediog gan gynnwys malurion, yng nghilfach cylfat Heol Pentre. Nododd, yn yr adroddiad yma, mae'r Cyngor, ag yntau'n Awdurdod Rheoli Llifogydd Lleol, yn cynnig nifer o gamau i leihau’r risg y bydd llifogydd o'r fath yn digwydd eto.

Codwyd cwestiynau pellach mewn perthynas â:

- Sut mae trafodaethau'n datblygu gyda CNC ar y gwaith i Ystad Ddiwydiannol Treforest?
- A yw'r awdurdod lleol yn deall pam mae preswylwyr yn amharod i dderbyn y cynnig o gatiau llifogydd, a yw'n gysylltiedig â materion atebolrwydd?
- A yw LlC yn deall i ba raddau y mae angen iddynt gynyddu eu cefnogaeth i lywodraeth leol o ran cynlluniau lliniaru llifogydd?
- A fydd wal Stryd y Nant, Britannia, yn cael ei symud ymlaen cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau preswylwyr y bydd mesur i reoli a lleihau'r risg o lifogydd yn cael ei leihau yn ardal Britannia?
- Ydyn ni'n targedu cilfachau penodol o ran y camerâu anghysbell?

Ymatebodd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Rheng Flaen i'r holl gwestiynau, o ran y ceisiadau i Lywodraeth Cymru, cadarnhaodd yr Arweinydd fod bron pob cais a gyflwynwyd wedi'i gymeradwyo ond mae argaeledd contractwyr i gyflawni'r gwaith yn peri problemau gan fod y mae graddfa'r gwaith yn ddigynsail. Sicrhaodd yr Aelodau y byddai gwybodaeth am y gatiau llifogydd ac adborth o'r ymarfer curo drws yn cael ei darparu i'r Aelodau yn ddiweddarach fel gyda gwybodaeth ynglŷn â Heol Tuberville.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Rheng Flaen fod rhywfaint o waith wedi'i wneud gan CNC yn Ystâd Ddiwydiannol Treforest i atgyweirio a gwarchod y mesurau amddiffyn rhag llifogydd wrth ochr yr afon yn yr ardal, a hefyd i glirio'r afon. Ar ôl cwblhau'r arolygon, mae'r model ar gyfer rhan isaf y Taf yn cael ei ddatblygu i werthuso risg ac ystyried pa fesurau fydd yn cael eu nodi i wella cydnerthedd yn nhermau llifogydd yn yr ardal.

Atgoffwyd yr aelodau y dylai unrhyw Aelodau sydd â chwestiynau pellach e-bostio'r Arweinydd am ymateb.

Yn dilyn trafodaethau a chwestiynau a ofynnwyd i'r Arweinydd a'r swyddog arweiniol, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad, y cynnydd sylweddol a wnaed hyd yma a'r biblinell helaeth o waith lliniaru, atgyweirio a gwella sydd o'n blaenau.

## 59 Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig – y Newyddion Diweddaraf

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, roi diweddariad i'r Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/22 tan 2024/25, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol, cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth cyllideb 2022/23 yn ystod misoedd yr hydref.

Hysbyswyd yr aelodau bod y pandemig wedi arwain at alw digynsail a phwysau ariannol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor sydd, ar y cyfan, wedi'i ariannu gan gronfa caledi Llywodraeth Cymru. Yn genedlaethol bydd adolygiad gwariant 3 blynedd a gyhoeddir ar 27 Hydref 2021 a fydd yn allweddol wrth bennu lefel y cyllid sydd ar gael i genhedloedd datganoledig yng nghyd-destun yr adferiad economaidd a chyllidol ehangach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, fel y nodir yn adran 5 yr adroddiad, bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru gan y Cyngor wedi'i lunio yn erbyn y cefndir hwn a thybiaethau modelu. Dangosir canlyniad y modelu yn ffigur 1 gyda bwlch yn y gyllideb ym mhob senario sy'n gyfystyr â bwlch o £26 miliwn ar draws y 3 blynedd mewn setliad positif o 4% i fwlch o £52 miliwn ar draws y 3 blynedd

ar setliad positif o 2%.

Er mwyn parhau i gydbwyso'r gyllideb, dywedodd y Cyfarwyddwr y bydd angen i'r Cyngor barhau i ganolbwyntio a pharatoi'n dda ar gyfer ystod o sefyllfaoedd posibl a bydd y trefniadau tymor canolig ac ariannol a chynllunio gwasanaeth yn parhau i wasanaethu'r Cyngor yn dda yn hyn o beth.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r Cynllun wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad yn rhan o broses ymgynghori cyllideb 2022/23.

**PENDERFYNWYD** Nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r 'Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021/22 tan 2024/25' a chael diweddariad pellach yn yr hydref yn rhan o'r broses gosod cyllideb flynyddol.

## 60 Blaenoriaethau Buddsoddi'r Cyngor

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol at ei adroddiad sy'n nodi'r sefyllfa o ran cynnig bod y Cyngor yn buddsoddi ymhellach yn ei feysydd o flaenoriaeth, yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, "Gwneud Gwahaniaeth" 2020-2024. Wrth gyflwyno ei adroddiad, gofynnodd am gytundeb y Cyngor o y trefniadau buddsoddi ac ariannu ychwanegol fel y'u nodir ym mharagraff 4 a fydd, os cytunir arnynt, yn cael eu hymgorffori yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad **PENDERFYNWYD** cytuno ar y trefniadau buddsoddi ac ariannu ychwanegol fel y'u nodir ym mharagraff 4 a fydd yn cael eu hymgorffori yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

## 61 ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU 2023 - CYNIGION CYCHWYNNOL COMISIWN FFINIAU CYMRU

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol ei adroddiad a'r atodiadau Cysylltiedig mewn perthynas â chyhoeddi cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau Cymru, a gyhoeddwyd ar yr 8 Medi 2021 mewn perthynas â'r etholaethau seneddol newydd arfaethedig yng Nghymru.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad i gynnwys yr argymhelliad i gyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w ystyried. Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig a chynghori y dylid gwahoddiad i holl Aelodau'r Cyngor yn cael ei gylchredeg i fynychu a chyfrannu at y Mater

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cyfeirio ystyriaeth o gynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau at y Pwyllgor Trosolwg a Craffu a chytuno ar yr adborth ohonynt yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod i'w gynnal ar yr 20th Hydref 2021, er mwyn gallu ymateb erbyn dyddiad cau'r 3rd Tachwedd 2021; a

2. Gwahodd holl Aelodau'r Cyngor i fynychu'r Pwyllgor Trosolwg a Craffu a chyfrannu at y mater hwn.

## 62 Newid Aelodaeth Pwyllgorau

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad i gynghori Aelodau o'r newid i'r gynrychiolaeth Lafur ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Craffu Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant a'r Pwyllgor Craffu ar Blant a Phobl Ifanc.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. I nodi y byddai Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Elliott yn cael ei enwebu i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes ar y Pwyllgor Archwilio.

2. Bydd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Barton yn cael ei enwebu yn lle'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Harries ar y Pwyllgor Craffu Cyflenwi Gwasanaethau Cymunedol, Cymunedau a Ffyniant.

3. Bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Turner yn cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Davies-Jones ar y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc;

## 63 Rhybudd o Gynnig

**12A**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau: L. M. Adams, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Elliott, S. Evans, G. Jones, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, R. Williams, T. Williams, a R. Yeo.

Dros y 18 mis diwethaf, mae arwyr ar y rheng flaen ym, mhob rhan o'r sectorau cyhoeddus a phreifat wedi arwain y frwydr yn erbyn COVID-19, gan roi eu hunain mewn perygl a gwneud aberthau personol enfawr i ddiogelu'r GIG, achub bywydau a chadw'r DU i fynd.

Mae eu cyfraniadau wedi cael eu cydnabod yn eang, gyda miliynau yn sefyll ar eu stepen drws i ddangos eu gwerthfawrogiad ar wahanol adegau yn ystod y pandemig. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyfleu ei werthfawrogiad mewn cyfres o ddyfyniadau gwag am arwyr y rheng flaen.

Serch hynny, yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant un flwyddyn yr hydref diwethaf, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys "saib" tâl sector cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol yma, gyda dim ond y rhai sy'n ennill llai na £24,000 a staff y GIG yn cael eu heithrio. Ym mis Mawrth, cafodd Llywodraeth y DU ei feirniadu'n chwyrn ar ôl i gynigion ar gyfer codiad cyflog o 1% ar gyfer y rhai sydd wedi'u heithrio o'r "saib" gael eu cyhoeddi, tra bod modd i'w gynnig gwell o 3%, yn dilyn argymhelliad gan gorff Adolygu Cyflogau'r GIG, arwain at gamau gweithredu diwydiannol.

Mae arwyr rheng flaen ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus bellach yn wynebu

toriad cyflog gwirioneddol arall er gwaethaf eu hymdrechion diflino i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a bod ein cymunedau'n cael eu cadw'n ddiogel dros y 18 mis diwethaf. Mae uwch gynrychiolwyr o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr eisoes wedi mynegi eu siom a'u gwrthwynebiad i godiad cyflog o 0% - sy'n dod ar adeg pan mae swyddogion yr heddlu'n wynebu mwy na 100 o ymosodiadau y dydd (cynnydd o 20% ers y flwyddyn flaenorol). Yn ogystal â hynny, mae'r miloedd o staff a gaiff eu cyflogi gan y Cyngor yma wedi cael cynnig cynnydd cyflog o 1.75%, a bydd angen i'r Cyngor yma ariannu'r cynnydd yn llwyr o'i adnoddau ei hun os caiff ei dderbyn.

Yn ddiweddar, mae Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Jeremy Miles AS wedi cadarnhau ei fod yn bwriadu derbyn y codiad cyflog argymelledig o 1.75% i athrawon. Serch hynny, os cytunir arno, mae'n debygol y bydd angen dod o hyd i'r cyllid o'r adnoddau presennol hefyd, gan na dderbyniodd Llywodraeth Cymru unrhyw arian ychwanegol trwy fformiwla Barnett i ddarparu'r dyfarniadau cyflog ledled y sector cyhoeddus yn 2021-22. Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am y penderfyniad yma, ond unwaith eto mae'n cael effaith uniongyrchol ar Gymru.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog i amlinellu barn y Cyngor yma bod ein harwyr ar y rheng flaen yn haeddu codiad cyflog gwirioneddol a theg, a bod yn rhaid i Lywodraeth y DU ariannu hyn i osgoi trosglwyddo baich y gost i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, S. Rees-Owen, M. Weaver, J. Williams, A. Cox, J. Davies, J. Cullwick, L. Jones, E. Stephens, H. Fychan, D. Grehan, K. Morgan, E. Webster, D. Macey, A. Chapman a S. M.

Roedd y Cynnig Diwygiedig yn nodi:

Dros y 18 mis diwethaf, mae arwyr ar y rheng flaen ym, mhob rhan o'r sectorau cyhoeddus a phreifat wedi arwain y frwydr yn erbyn COVID-19, gan roi eu hunain mewn perygl a gwneud aberthau personol enfawr i ddiogelu'r GIG, achub bywydau a chadw'r DU i fynd.

Mae eu cyfraniadau wedi cael eu cydnabod yn eang, gyda miliynau yn sefyll ar eu stepen drws i ddangos eu gwerthfawrogiad ar wahanol adegau yn ystod y pandemig. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyfleu ei werthfawrogiad mewn cyfres o ddyfyniadau gwag am arwyr y rheng flaen.

Serch hynny, yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant un flwyddyn yr hydref diwethaf, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys "saib" tâl sector cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol yma, gyda dim ond y rhai sy'n ennill llai na £24,000 a staff y GIG yn cael eu heithrio. Ym mis Mawrth, cafodd Llywodraeth y DU ei feirniadu'n chwyrn ar ôl i gynigion ar gyfer codiad cyflog o 1% ar gyfer y rhai sydd wedi'u heithrio o'r "saib" gael eu cyhoeddi, tra bod modd i'w gynnig gwell o 3%, yn dilyn argymhelliad gan gorff Adolygu Cyflogau'r GIG, arwain at gamau gweithredu diwydiannol.

Mae arwyr rheng flaen ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus bellach yn wynebu toriad cyflog gwirioneddol arall er gwaethaf eu hymdrechion diflino i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a bod ein cymunedau'n cael eu cadw'n ddiogel dros y 18 mis diwethaf. Mae uwch gynrychiolwyr o heddluoedd ledled Cymru a

Lloegr eisoes wedi mynegi eu siom a'u gwrthwynebiad i godiad cyflog o 0% - sy'n dod ar adeg pan mae swyddogion yr heddlu'n wynebu mwy na 100 o ymosodiadau y dydd (cynnydd o 20% ers y flwyddyn flaenorol). Yn ogystal â hynny, mae'r miloedd o staff a gaiff eu cyflogi gan y Cyngor yma wedi cael cynnig cynnydd cyflog o 1.75%, a bydd angen i'r Cyngor yma ariannu'r cynnydd yn llwyr o'i adnoddau ei hun os caiff ei dderbyn.

*Er gwaethaf yr uchod, rydyn ni'n croesawu'r Datganiad Ysgrifenedig a wnaed ar* 8 Medi 2021 gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cadarnhau'r cynnydd o 1.75% i gyflog athrawon, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Medi 2021 a dyfarnu £6.4 miliwn arall tuag at gost y dyfarniad cyflog mewn ysgolion a chweched dosbarth yn ystod y flwyddyn ariannol yma.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog i amlinellu barn y Cyngor yma bod ein harwyr ar y rheng flaen yn haeddu codiad cyflog gwirioneddol a theg, a bod yn rhaid i Lywodraeth y DU ariannu hyn i osgoi trosglwyddo baich y gost i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r diwygiad.

Yn dilyn trafodaeth bellach mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig.

**12B**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau: L. M. Adams, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Elliott, S. Evans, G. Jones, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, R. Williams, T. Williams, a R. Yeo.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn parhau i sefyll yn erbyn pob math o hiliaeth a gwahaniaethu ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau partner i frwydro yn erbyn credoau a gweithredoedd ffiaidd o'r fath.

Un math o hiliaeth a gwahaniaethu sydd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw Islamoffobia. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) wedi tynnu sylw at sut mae 70% o Fwslimiaid wedi profi rhagfarn ar sail crefydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae Mwslimiaid yn wynebu rhai o'r canlyniadau gwaethaf o ran cyflogaeth, iechyd ac addysg, ac, yn ôl data'r Swyddfa Gartref, cawson nhw eu targedu mewn mwy na hanner yr holl droseddau casineb crefyddol a gofnodwyd (2017-2019).

Yn dilyn dwy flynedd o ymgynghori, ar 27 Tachwedd 2018, cyhoeddodd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Fwslimiaid Prydain adroddiad o'r enw "Islamophobia Defined: the inquiry into a working definition of Islamophobia."

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y diffiniad canlynol:

"Islamophobia is rooted in racism and is a type of racism that targets expressions of Muslimness or perceived Muslimness."

Mae modd i enghreifftiau cyfoes o Islamoffobia mewn bywyd cyhoeddus, y cyfryngau, ysgolion, y gweithle, ac mewn sefyllfaoedd crefyddol neu anghrefyddol, gan ystyried y cyd-destun cyffredinol, gynnwys y canlynol (ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i hyn):

- Galw am, cynorthwyo, ysgogi neu gyfiawnhau lladd neu niweidio Mwslimiaid yn enw ideoleg hiliol/ffasgaidd, neu farn eithafol ar grefydd.

- Gwneud honiadau celwyddog, dad-ddyneiddiol, gwahaniaethol, neu ystrydebol am Fwslimiaid fel y cyfryw, neu Fwslimiaid fel grŵp ar y cyd, megis rhannu cynllwynion am effaith Mwslimaidd ar wleidyddiaeth, y llywodraeth neu sefydliadau cymdeithasol eraill; y myth bod gan bobl Fwslimaidd duedd unigryw i gyflawni derfysgaeth, a honiadau o 'fygythiad' demograffig a berir gan Fwslimiaid neu o 'feddiant Mwslimaidd', ymhlith pethau eraill.

- Cyhuddo Mwslimiaid fel pobl o fod yn gyfrifol am gamwedd go iawn neu ddychmygol a gyflawnwyd gan berson neu grŵp Mwslimaidd unigol, neu hyd yn oed am weithredoedd a gyflawnwyd gan bobl nad ydynt yn Fwslimiaid.

- Cyhuddo Mwslimiaid fel grŵp, neu wladwriaethau mwyafrif Mwslimaidd, o ddyfeisio neu orliwio Islamoffobia, glanhau ethnig neu hil-laddiad a gyflawnwyd yn erbyn Mwslemiaid.

- Cyhuddo dinasyddion Mwslimaidd o fod yn fwy ffyddlon i'r 'Ummah' (cymuned Fwslimaidd drawswladol) neu i'w mamwlad, neu i flaenoriaethau honedig Mwslimiaid ledled y byd, nag i fuddiannau eu cenhedloedd eu hunain.

- Gwadu hawl i boblogaethau Mwslimaidd i hunanbenderfyniad e.e., trwy honni bod bodolaeth Palestina neu Kashmir annibynnol yn ymdrech derfysgol.

- Bod yn rhagrithiol drwy fynnu bod Mwslimiaid yn ymddwyn mewn ffyrdd na ddisgwylir nac y gofynnir amdanynt gan unrhyw grwpiau eraill mewn cymdeithas, e.e. profion teyrngarwch.

- Defnyddio'r symbolau a'r delweddau sy'n gysylltiedig ag Islamoffobia clasurol (e.e. dweud bod Muhammed yn bedoffeil, honiadau o Fwslimiaid yn lledaenu Islam gan ddefnyddio cleddyf neu'n darostwng grwpiau lleiafrifol o dan eu rheolaeth) i nodweddu Mwslimiaid fel pobl sy'n meinthrin perthnasau amhriodol er mwyn cael rhyw, pobl sy'n gynhenid dreisgar neu bobl sydd ddim yn gallu byw'n heddychlon mewn cymdeithasau cymysg.

- Dal Mwslimiaid yn gyfrifol ar y cyd am weithredoedd unrhyw wladwriaeth fwyafrifol Fwslimaidd, boed yn seciwlar neu'n Islamaidd yn gyfansoddiadol.

Mae'r Cyngor yma'n penderfynu mabwysiadu'r diffiniad uchod yn ffurfiol ac yn addo gwneud ei orau glas i fynd i'r afael ag Islamoffobia, cefnogi trigolion a chymunedau Mwslimaidd sy'n wynebu'r math o wahaniaethu a ddisgrifir yn yr enghreifftiau uchod, a meithrin dealltwriaeth gyffredin o'i achosion a'i ganlyniadau.

Yn dilyn trafodaeth ar y mater, **PENDERFYNWYD –** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(**Nodyn:** Roedd yr Aelodau canlynol bresennol o Grŵp Plaid Cymru yn dymuno iddo gael ei gofnodi fel un a bleidleisiodd o blaid yr Hysbysiad o Gynnig: Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol P Jarman, A Cox, G R Davies, S. Evans, E Griffiths, S Rees-Owen, E Stephens, M Weaver, E Webster a J Williams).

•Yn ystod y drafodaeth **PENDERFYNWYD** parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol 8 - Dull Gweithredu'r Cyngor, er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**